# Diogelu

## Cod Ymddygiad ar gyfer Gwirfoddolwyr

Yn y Sgowtiaid, lles plant a phobl ifanc yw ein blaenoriaeth. Mae gan bawb ddyletswydd i roi gwybod am ddiogelu Pryderon diogelu, a rhaid i oedolion ddilyn Y Cod Ymddygiad Diogelu

**Plant a phobl ifanc yn gyntaf. Os oes amheuaeth, riportiwch ef**

Mwy o wybodaeth yn **scouts.org.uk/safeguarding**

Scouts

**Os yw plentyn neu berson ifanc yn dweud wrthych am bryder, rhaid i chi wneud y canlynol.**

1. Caniatáu iddyn nhw siarad heb dorri ar eu traws, a derbyn yr hyn maen nhw'n ei ddweud.
2. Dangos eich bod yn deall  a'u cysuro, ond peidiwch â rhoi eich barn.
3. Dweud wrthynt y byddwch chi'n ceisio helpu ond bod yn rhaid i chi basio'r wybodaeth ymlaen.
4. Ysgrifennu nodiadau gofalus o'r hyn a ddywedwyd gan ddefnyddio'r geiriau penodol a ddefnyddiwyd. Peidiwch â gofyn cwestiynau arweiniol na cheisio darganfod a yw'r pryder yn gyfiawn.
5. Gwneud yn siŵr nad yw gweithgareddau'r Sgowtiaid yn achosi risg bellach i'w lles.
6. Cysylltu â'r Tîm Diogelu.

**Os ydych chi'n poeni am les plentyn neu berson ifanc, neu os oes pryder, cwyn neu honiad, amdanoch chi neu oedolyn arall, y tu mewn neu'r tu allan i'r Sgowtiaid, rhaid i chi wneud y canlynol.**

1. Ysgrifennu nodiadau gofalus o'r hyn a ddywedwyd gan ddefnyddio'r geiriau penodol a ddefnyddiwyd.
2. Peidio â gofyn cwestiynau arweiniol na cheisio darganfod a yw'r pryder yn gyfiawn.
3. Gwneud yn siŵr nad yw Sgowtio yn achosi risg bellach i'ch lles chi na'u lles nhw.
4. Cysylltu â'r Tîm Diogelu

**Gweithdrefn ar gyfer rhoi gwybod am bryderon diogelu**

**1. Casglu'r wybodaeth angenrheidiol**

- Gwneud yn siŵr bod gennych enw, dyddiad geni, cyfeiriad a rhif ffôn pob person sy'n ymwneud â'r pryder.
- Darganfod pryd fydd y bobl dan sylw yn cymryd rhan mewn cyfarfod neu weithgaredd Sgowtiaid nesaf.

**2. Cysylltu â'r Tîm Diogelu**

- Defnyddiwch y ffurflen riportio ar wefan y Sgowtiaid i riportio'r pryder i'r Tîm Diogelu. Ceisiwch gynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl.
- Os na allwch lenwi'r ffurflen ar-lein, ffoniwch **+44(0)20 8433 7164** (9am i 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener) neu e-bostiwch **safeguarding@scouts.org.uk**

- Mewn argyfwng y tu allan i'r amseroedd uchod, gallwch gysylltu â'r Tîm Diogelu drwy ffonio Canolfan Cymorth y Sgowtiaid ar **+44(0)345 300 1818.**
- Dilynwch gyngor y Tîm Diogelu a pheidiwch â chymryd unrhyw gamau pellach oni bai eu bod yn dweud wrthych am wneud hynny.
- Gofynnwch gwestiynau os nad ydych chi'n siŵr beth i'w wneud.

**Eich dyletswydd chi yw rhoi gwybod am yr holl bryderon diogelu, p'un a ydych chi'n cael gwybod amdanynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, cyn gynted â phosibl (bob amser o fewn 24 awr). Os nad ydych yn siŵr beth i'w wneud, neu os nad ydych yn siŵr a yw pryder wedi'i adrodd, cysylltwch â'r Tîm Diogelu.**

Os yw plentyn neu berson ifanc mewn perygl uniongyrchol o niwed, ffoniwch **999** neu **112** a gofynnwch am yr heddlu. Dywedwch wrth y Tîm Diogelu eich bod wedi gwneud hyn.

Gallwch hefyd ffonio'r NSPCC ar **0808 800 5000** neu e-bostiwch nhw drwy **help@nspcc.org.uk**

# Cod ymddygiad

**Rhaid** cofio eich bod chi'n fodel rôl bob amser, y tu mewn a'r tu allan i'r Sgowtiaid. Mae'n rhaid i chi osod esiampl dda i eraill ei dilyn.

**Rhaid** trin pawb ag urddas a pharch yn unol â Gwerthoedd y Sgowtiaid.

**Rhaid** trin pob person ifanc yn gyfartal – peidiwch â dangos ffafriaeth.

**Rhaid** dilyn y cymarebau oedolyn-i-bobl ifanc bob amser.

**Rhaid** cofio eich bod wedi eich rhoi mewn sefyllfa o ymddiriedaeth – peidiwch â chamddefnyddio'r ymddiriedaeth hon

**Rhaid** rhoi gwybod am yr holl bryderon diogelu yn uniongyrchol i'r Tîm Diogelu cyn gynted â phosibl, a bob amser o fewn 24 awr

**Rhaid** cysylltu â'r Tîm Diogelu os ydych chi'n derbyn manylion am unrhyw asiantaeth statudol (er enghraifft, yr heddlu, y Swyddog Dynodedig Awdurdod Lleol neu wasanaethau plant) ynglŷn ag aelod.

**Rhaid** cofio y gallai rhywun gamddehongli eich gweithredoedd.

**Rhaid** parchu hawl plant a phobl ifanc i breifatrwydd personol.

**Rhaid** annog diwylliant agored a thryloyw, lle mae pobl yn herio neu'n riportio ymddygiad nad yw'n unol â'r cod hwn.

**Rhaid** gwneud pawb yn ymwybodol o'n trefniadau diogelu. Rhannwch ein Cerdyn Melyn gyda gwirfoddolwyr, rhieni a gwarcheidwaid, a'i arddangos mewn cyfarfodydd.

**Rhaid** creu amgylchedd lle mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu lleisio eu pryderon.

**Rhaid** trefnu llety cysgu ar wahân i bobl ifanc ac oedolion, yn ogystal ag arweinwyr ifanc sy'n gweithio gydag adran iau.

**Rhaid** cynllunio gweithgareddau sy'n cynnwys mwy nag un person arall yn bresennol. Os nad yw hynny'n bosibl, gwnewch yn siŵr bod pobl eraill yn gallu gweld a chlywed beth sy'n digwydd.

**Peidiwch** â chynllunio i fod ar eich pen eich hun gyda phlentyn neu berson ifanc yn y Sgowtiaid, naill ai ar-lein neu yn bersonol.

**Peidiwch** ag yfed alcohol pan fyddwch chi'n gyfrifol am blant a phobl ifanc yn y Sgowtiaid, a pheidiwch byth â gadael i blant dan 18 oed yfed alcohol yn ystod gweithgareddau Sgowtiaid.

**Peidiwch** â bychanu pryderon na cham-drin.

**Peidiwch** â gadael pryderon a cham-drin heb eu riportio. Cysylltwch â'r Tîm Diogelu, yn enwedig os ydych chi'n teimlo nad yw eich pryder wedi ei gymryd o ddifrif.

**Peidiwch** ag ymuno mewn gemau cyswllt corfforol gyda phlant a phobl ifanc.

**Peidiwch** â mynd dros y terfynau gyda phlant a phobl ifanc trwy fod yn rhan o gyfeillgarwch neu berthynas bersonol â nhw.

**Peidiwch** â chaniatáu gweithgareddau sy'n annog ymddygiad bwlio, gan gynnwys seremonïau sefydlu, herio neu fforffedu.

**Peidiwch** â defnyddio iaith amhriodol, awgrymus neu fygythiol, boed ar lafar, ysgrifenedig neu ar-lein.

**Peidiwch** â dibynnu ar eich enw da neu'ch sefyllfa i'ch amddiffyn.

**Peidiwch** â bod yn rhan o bryder diogelu os oes gennych gyfeillgarwch personol neu gysylltiad teuluol â'r rhai sy'n gysylltiedig. Camwch yn ôl a dweud wrth y Tîm Diogelu am y cysylltiad

**scouts.org.uk/safeguarding**
Fersiwn 8. 1 Ionawr 2024